

Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn. Mae pob rhodd yn help i dalu am ei argraffu bob Sul. Derbyniwyd sawl rhodd ers dechrau'r flwyddyn.

Gobeithio bod Gronyn yn dal i gyflawni ei bwrpas, a'ch bod yn cael budd ohono. Ymhen 20 rhifyn arall, os byw ac iach, bydd Gronyn wedi cyrraedd rhifyn 600.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mawrth 5: Cyfarfod Gweddi Efe yn 'Cartref', Caeathro am 7.00 o'r gloch.

Nos Iau, Mawrth 6: Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang Y Chwiorydd yn Nhŷ Elidir am 6.00 o'r gloch. Sylwch mai yn Nhy Elidir y cynhelir yr oedfa eleni.

Dydd Sul, Mawrth 9: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 2

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John Roberts

Mawrth 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

Mawrth 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Charles Jones

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Mawrth 5: Cyfarfod Gweddi Efe yn 'Cartref', Caeathro am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 9: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 9: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Os bydd y tywydd yn oer, cynhelir yr oedfa unwaith eto, fel y gwnaed ers dechrau'r gaeaf, yn 'Dwyfor'. Diolch yn fawr iawn i deulu 'Dwyfor' am eu croeso cynnes i ni gynnal yr oedfaon yno.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 2

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
Y Parchg Richard O Jones

Dim Ysgol Sul (Gwyliau Hanner Tymor)

Mawrth 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mawrth 16

10.00 a.m. - Mr Gwilym Charles Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatee

Mawrth 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 30

10.00 a.m. - Mr Dylan Rhys
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 581 – Dydd Sul, 02 Mawrth, 2014

Wrth yr enw

Yn rhifyn diweddaraf Eco'r Wyddfa rwy'n cyfeirio yn y golofn 'Un funud fach' at ddylanwad y Ffydd Gristnogol ar enwau cymaint o bentrefi Cymru. Mae hynny'n wir am bentrefi'r Ofalaeth hon wrth gwrs. Mae Llanberis a Nant Peris yn gysylltiedig â Sant Peris wrth gwrs. Capel Ebeneser, wrth gwrs, a roddodd yr hen enw i bentref Deiniolen. Ond beth am yr enw Deiniolen ei hun? Mae hwnnw hefyd yn gysylltiedig â'r Ffydd. Ond sut?

Does ond rhaid meddwl am blwyf ac Eglwys Llanddeiniolen i gael yr ateb, wrth gwrs. Ac eto, mae'n rhaid i mi gyfaddef f'anwybodaeth gan i mi dybio mai'r sant perthnasol oedd Deiniol – yr un Deiniol ag a gysylltir ag Eglwys Deiniol Sant, y Gadeirlan ym Mangor. Roedd Deiniol yn byw yn hanner cyntaf y Chweched Ganrif, ac fe sefydlodd eglwys ym Mangor, lle bu'n abad ar gymuned o fynaich, mae'n debyg.

Ac enw ei fab ef oedd Deiniolen, a roes ei enw, felly, i Landdeiniolen ac yn fwy diweddar i bentref Deiniolen. Roedd hwn yn byw yn ail hanner y Chweched Ganrif a dechrau'r Seithfed. Bu hwn yn fynach ym Mangor-is-y-coed cyn iddo ddod i'r ardal hon a sefydlu eglwys yn Llanddeiniolen. Wyddwn i ddim chwaith mai'r Deiniolen hwn, a elwid hefyd Deiniolfab a Deiniol Fab, yw'r 'Daniel' yn Llanddaniel Fab yn Sir Fôn.

Ychydig a wŷr neb erbyn hyn am y dynion hyn o'r Chweched a'r Seithfed Ganrif a adwaenwn ni fel 'saint'. Prin

yw'r ffeithiau a'r manylion, ond y peth pwysig, a'r hyn a wyddom, yw mai pobl yr Efengyl a'r Ffydd Gristnogol oedden nhw. O ddyddiau cynnar iawn yn hanes ein gwlad, felly, gwyddom fod yr Efengyl yn rhan amlwg iawn o'i bywyd. Roedd Deiniol a Deiniolen ac eraill tebyg iddynt yn crwydro'r wlad yn cyhoeddi'r Efengyl ac yn sefydlu eglwysi.

Tra bydd y pentrefi hyn yn dwyn yr enwau arbennig sydd iddynt, bydd rhyw gyswllt annatod â'r Ffydd. Ond gweddiwn na ddaw'r dydd y bydd y cyswllt hwnnw yn ddim ond atgof pell am hen, hen seintiau fel Padarn, Peris a Deiniolen neu seintiau mwy diweddar y Ddeunawfed a'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a sefydlodd y capeli a fu'n britho ein pentrefi a'n hardal.

Ond a bod yn greulon o onest, y gwir yw bod hynny eisoes yn wir i lawer o bobl y bröydd hyn. Rhywbeth sy'n rhan o orffennol ein pentrefi a'n gwlad yw'r Ffydd Gristnogol iddynt hwy. Mae mor fyw yn eu golwg â'r capeli a gaewyd ac a ddymchwelwyd. Ac mae hynny'n rhan o drasiedi fawr ein gwlad yn ail hanner y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif bresennol.

Ond nid oes rhaid iddi fod felly gan mai'r Duw Byw yw ein Duw ni. Gweddiwn y bydd yr Arglwydd yn bendithio eglwysi ein hardal heddiw fel y bydd y dystiolaeth i Iesu Grist yn dal yn fyw, a hyd yn oed yn fwy grymus, yfory a phob yfory arall.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad o'r newydd.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Richard O Jones, Melin y Coed. Croeso cynnes a diolch am ei wasanaeth unwaith eto. Nid oes Ysgol Sul oherwydd y gwyliau.

Byddaf yn arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen am 10.00 a 5.00 o'r gloch. Nid oes Ysgol Sul heddiw.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Difrod storm

Mae'n dda cael oedfaon yn Neiniolen eto heddiw wedi i ni fethu â chynnal oedfa dros y ddau Sul diwethaf yn dilyn y difrod a wnaed gan y gwyntoedd mawr bythefnos yn ôl.

Cadeiriau

Mae'r cadeiriau newydd ar gyfer Capel Coch wedi eu harchebu erbyn hyn, ond rhag ofn i chi ddisgwyl eu gweld yno o fewn ychydig ddyddiau, gwell i mi egluro na fyddan nhw'n cyrraedd am ddeufis, hynny yw tua diwedd mis Ebrill.

Yr ydym yn ddiolchgar am y rhoddion a dderbyniwyd at y cadeiriau heb i ni ofyn amdanynt, ac mae rhai ohonoch wedi mynegi awydd i gyfrannu at y gost trwy brynu neu gyfrannu at gost cadair, ac wedi holi am y pris.

Mae'r cadeiriau'n costio £80 yr un, a byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd y byddai unrhyw un yn awyddus i'w roi, un ai cost un gadair neu gyfraniad llai tuag at y gost. Rydym yn nodi'r £80 yn unig am fod rhai wedi gofyn faint mae'r cadeiriau'n gostio.

Yr ydym wedi archebu 60 o gadeiriau, a fydd yn llenwi canol y festri, gyda'r bwriad o brynu rhagor o gadeiriau yn nes ymlaen.

Meinciau Capel Coch

Bwriadwn werthu rhai o'r meinciau pren er mwyn gwneud lle i'r cadeiriau newydd.

Bydd y cynnig cyntaf i'w prynu yn cael ei roi i aelodau'r eglwys, ac felly os oes gennych ddi-ddordeb mewn prynu mainc rhwch wybod i Drysorydd yr eglwys, Mr Colin Jones os gwelwch yn dda.

Nid ydym wedi setlo ar bris terfynol, ond bwriadwn godi oddeutu £30 y fainc amdanynt. Cewch wybod y pris terfynol yr wythnos nesaf, a bydd angen i bawb gyflwyno cais ar bapur. Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad a sawl mainc yr hoffech eu prynu. Bydd rhaid cyfyngu pawb i un fainc os bydd galw mawr amdanynt.

Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn dechrau trefnu ar gyfer yr wythnos o gasglu arian o ddrws i ddrws yn ystod y mis hwnnw.

Mai 11–17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol unwaith eto.

Os medrwch roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn Neiniolen nos Lun diwethaf a chafwyd sgwrs ddi-ddorol iawn gan Miss Karen Owen, Penygroes yn seiliedig ar ei barddoniaeth. Diolchwyd iddi gan Mr Brian Price.

Penderfynwyd cynnal y swper blynyddol yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon unwaith eto.

Cydymdeimlo

Ar ddechrau cyfarfod y Gymdeithas yn Neiniolen cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Eleanor Morris, 7 Ffordd Deiniol a fu farw'n annisgwyl ddydd Sadwrn, Chwefror 15, yn 68 mlwydd oed. Bu'n ffyddlon iawn yn Eglwys Crist, Llandinorwig ac yn Warden yr Eglwys am rai blynyddoedd. Roedd yn wraig hoffus ac annwyl iawn, ac yn hael ei chroeso i bawb ohonom yn yr Eglwys bob tro y byddem yn mynd yno. Bu'n gymorth mawr i mi'n bersonol bob tro y byddwn yn arwain neu'n cymryd rhan mewn unrhyw oedfa yn Llandinorwig, a bydd yn chwith iawn hebdi yno. Ar brydiau hefyd, pan na fyddai gwasanaeth yn Llandinorwig, byddai Eleanor yn dod atom i'r oedfa nos Sul yn Ebeneser. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Derek, a'i phlant Sandra a Gerallt, a'r holl deulu yn eu profedigaeth fawr.

Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

6.00 p.m.
nos Iau, Mawrth 6

yn Nhy Elidir

dan nawdd Eglwys Deiniolen

Croeso cynnes i bawb.

Cwrs Ieuentid

Mae dau o bobl ifanc Capel Coch wedi mynd i'r Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala dros y penwythnos. Gobeithio eu bod wedi mwynhau eu hunain, a diolch i Andrew am drefnu a mynd yno hefo'r criw o Lanrug, Llanberis a Chaernarfon.

Gobeithio eu bod yn cael amser da.

Glanhau'r Festri

Tybed a oes yna rywun neu rywrai a fyddai'n gallu helpu i lanhau festri Capel Coch? Erbyn hyn dim ond dau 'dim' o lanhawyr sy'n cymryd eu tro i lanhau'r festri. Byddai'n help mawr os medrwn gael o leiaf un 'tim' arall o ddau neu dri o bobl i rannu'r gwaith trwy roi awr neu ddwy yr wythnos am fis, bob rhyw dri mis. Byddai hynny'n ysgafnhau'r gwaith. Holwch Miss Dilys Mai Roberts am ragor o fanylion.

Casgliad Genhadaeth

Yn ystod mis Mawrth gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd at y casgliad hwn fel arfer, a gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.